
# ATGOFION MARY RICHARDS (1787-1877)
# (a adnabyddir fel 'Mary Richards Darowen' - ond bu'n byw hefyd yn Llanerfyl)


Bryn Tanat Llanerfyl 1865 Nos
Sul y 25 o Rhagfyr oed Nos Nad
olig bu dwy Forwyn sef Ann Griffith
a Jane William ar ei thraed yn
canu Carolau hyd 12 or Cloch
gyda Mary Richard yn y Parlwr
a chanwyd or Carolau yn y Plygain
gan y dwy a Dafyd Robert ac mae
mae gair mae nhw ei dwy a Canod
oreu er mawr alar nis gallod Mr
Price or Buarthbachod dyfod o ran afi
echyd Cadwyd Plygain am hanner
awr wedi Pedwar yr Eglwys yn llawn
o wrandawyr ac ni welais yr un
Plygain yn un Plygain yn cael ei chyn
al mor adas er pan ter pan daeth y
Saeson in dysgu, sef yr holl partion
Canwyd 10 o Carolau a Prydnhawn
aeth Jane a Mair i Langadfan i
osber y Canwylle Canwyd 11 o Carol
au Llond yr Eglwys o Fobol yn ymd
wyn yn well nac arferol, tywydd teg
i fynd a dyfod yn ol Bryn Tanat
Rhagfyr y 25 1867 bu M Richard ar
ei thraed drwy'r Nos ychydig
oed y Cwmpeini sef Agnes Llwyd ac
Ann Griffith aethom tros amryw
o Garolau, ac Aeth ir Eglwys o
deutu pump or Cloch darllenwyd

*Bryn Tanat, Llanerfyl, 1865. Nos Sul y 25 o Ragfyr oedd nos Nadolig. Bu dwy forwyn, sef Ann Griffith a Jane William ar eu traed yn canu carolau hyd 12 o'r gloch, gyda Mary Richard yn y parlwr, a chanwyd o'r carolau yn y Plygain gan y ddwy a Dafydd Roberts, ac mae gair mai nhw eu dwy a ganodd oreu. Er mawr alar nis gallodd Mr Price o'r Buarthbachod ddyfod o ran afiechyd. Cadwyd Plygain am hanner awr wedi pedwar, yr eglwys yn llawn o wrandawyr, ac ni welais yr un Plygain yn cael ei chynnal mor addas er pan ddaeth y Saeson i'n dysgu, sef yr holl bartion. Canwyd 10 o garolau a'r prynhawn aeth Jane a Mair i Langadfan i Osber y canhwylle. Canwyd 11 o garolau. Llond yr eglwys o fobol yn ymddwyn yn well nag arferol, tywydd teg i fynd a dyfod yn ol i Bryn Tanat.*
*Rhagfyr y 25 1867 bu M. Richards ar ei thraed drwy'r nos. Ychydig oedd y cwmpeini, sef Agnes Llwyd ac Ann Griffith. Aethom dros amryw o garolau ac aethom i'r eglwys oddeutu pump o'r gloch…*